

## CYFLE YMCHWIL AR GYFER RHIANT/GOFALWR

Rydw i'n seicolegydd addysg dan hyfforddiant sy'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydw i'n chwilio am rieni/gofalwyr oedolion ifanc hefo Down Syndrome ar draws Cymru a Lloegr i gyfrannu at fy ymchwil doethuriaeth. Bydd yr astudiaeth yn dysgu am effaith bosib y pandemig Covid-19 ar gyfnod pontio i fewn i oedolion ar gyfer oedolion ifanc hefo Down Syndrome, o safbwyntiau rhieni/gofalwyr.

Pe baech chi yn riant neu yn ofalwr oedolyn ifanc hefo Down Syndrome oedd yn 17-25oed ar gychwyn y cyfnod clo cyntaf (23ain mis Mawrth 2020) (felly buasen nhw'n 20-29oed rwan) ac yn fodlon rannu eich profiadau, buaswn i'n awyddus i glywed eich meddyliau.

Pe baech chi'n hoffi gwirfoddoli, byddech chi'n gwahoddiad i ymuno â chyfweiliad lled-strwythuredig hefo fi, a fydd yn parau am hyd at un awr. Trefnid cyfweiliad ar dyddiad ac amser cyfleus i chi mewn person neu dros Microsoft TEAMS, yn ôl eich dymuniad a'r pellter rhyngddon ni. Gall y cyfweiliad cael ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg yn ôl eich dymuniad.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr astudiaeth, **anfonwch e-bost i mi os gwelwch yn dda (gwelir cyfeiriad e-bost isod)**. Ar ôl derbyn eich e-bost byddaf yn anfon mwy o wybodaeth am yr ymchwil yn ogystal â'r ffurflen caniatâd.

Diolch yn fawr am eich ystyriaeth.

Cofion cynnes,

Eleri

### **Manylion Cyswllt:**

Eleri Davies, Ymchwilydd a Seicolegydd Addysg dan hyfforddiant:  
[daviesen1@cardiff.ac.uk](mailto:daviesen1@cardiff.ac.uk)